**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 23 MEDI 2020 DYDD MERCHER, 23 MEDI 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HILL (CADEIRYDD)

Councillors P. Edwards (Is-gadeirydd)
G. A. Davies
L. Elias
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Rowson

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Adroddwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar gyfer y Cynghorydd B. Willis, oedd yn cael anawsterau technegol wrth ymuno â’r cyfarfod, a’r Prif Swyddog Masnachol. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 4 | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020, yn cynnwys:-<br><br>*Baddonau Pen Pwll Llanhiledd*<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan ofynnodd y Cadeirydd am eglurdeb pam y cyflwynwyd y cofnodion i gyfarfod 'arbennig' o'r Pwyllgor.<br><br>Mynegodd Aelod bryder nad yw'r cofnodion yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth a gynhaliwyd, ac yn methu cyfleu sylwadau a wnaeth am bryderon am hyfywedd y prosiect. Deallai y cafodd trydydd opsiwn ei gyflwyno h.y. cael trafodaethau pellach gyda'r perchennog. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith y cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol, ac yna cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar y mater, a theimlai fod y broses Craffu wedi ei bychanu.<br><br>Cytunodd Aelod arall a dywedodd nad yw'r cofnodion yn sôn am gwestiynau a gododd yn y cyfarfod ac yn ei farn ef nid yw'r cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth ac na fedrai eu cefnogi.<br><br>Dywedodd y Swyddog Craffu fod yr adroddiad a ystyriwyd yn adroddiad eithriedig, sy'n cyfyngu natur y drafodaeth y gellid ei rhoi yn y cofnodion.<br><br>Dywedodd Aelod mai ei ddealltwriaeth ef bod y Pwyllgor wedi cytuno ar Opsiwn 2 sef symud i'r cam nesaf i baratoi cynllun busnes, ac y byddai'r cam nesaf yn cynnwys yr holl faterion a godwyd gan Aelodau. Teimlai fod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir o'r hyn a gytunwyd gan y Pwyllgor Craffu.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor Craffu a chadarnhaodd y byddai Swyddogion yn rhoi ystyriaeth i bryderon pob Aelod wrth ddatblygu'r achos busnes.<br><br>Mewn ymateb dywedodd Aelod fod angen eglurdeb yn nhermau cofnodi trafodaethau ar wybodaeth eithriedig.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod y Pwyllgor Craffu wedi esbonio pam fod manylion y drafodaeth yn gyfyngedig ac yn ei farn ef mae'r cofnodion yn adlewyrchu'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod. Yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | nhermau'r argymhelliad, roedd wedi cynnig opsiwn 2 fel yr amlinellir yn yr adroddiad, a chafodd hynny ei eilio.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod y cofnodion yn dweud y caiff pryderon Aelodau eu trin fel y cam nesaf, a chredai ef hefyd fod y cofnodion yn gywir yn nhermau'r hyn y gellid ei ddogfennu.<br><br>Mewn pleidlais,<br>Derbyniodd 5 aelod y cofnodion fel cofnod gywir.<br>Pleidleisiodd 3 aelod yn erbyn derbyn y cofnodion.<br><br>CYTUNODD y pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 8 MEDI 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn eillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>ECONOMI – ADFERIAD ECONOMAIDD YN DILYN COVID-19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Adfywio a Datblygu.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu yr adroddiad sy'n nodi'r strategaeth arfaethedig ar gyfer Blaenau Gwent mewn ymateb i bandemig COVID-19, er mwyn cefnogi'r sectorau a busnesau yn y Fwrdeistref Sirol a rhoddodd ddiweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo'n lleol, ac yn bwydo i'r cynlluniau rhanbarthol.<br><br>Cyfeiriodd y Swyddog at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru a chadarnhaodd fod yr Awdurdod yn dal i fod yn y dull ymateb, a dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau fod yr Adran yn parhau i ddatblygu'r gwaith rhagweithiol sy'n mynd rhagddo, ynghyd â gweithgareddau adfer.<br><br>Mae pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo dilynol wedi ymyrryd ar fusnesau a chyflogaeth ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig, gan achosi problemau tymor byr a thymor hir ar draws llawer o sectorau. Mae'r adroddiad yn edrych ar gefndir data a gasglwyd | |

gan wahanol sefydliadau a melinau trafod a gweithredu modelu i edrych ar y ffigurau diweithdra posibl ar gyfer Blaenau Gwent. Mae hefyd wedi ystyried yr holl fusnesau sydd angen cymorth a'r rhai a allai ychwanegu mwyaf i'r economi lleol ar gyfer y dyfodol.

Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad yn fanwl a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Yn nhermau'r ymagwedd strategol, mae hyn yn cynnwys cyfuniad o gamau gweithredu tymor byr a thymor hirach mewn amrywiaeth o sectorau a phartneriaid i gynorthwyo gyda chyflenwi effeithlon. Byddai'r prif feysydd, a restrir islaw, yn galw am ddull gweithredu rhanbarthol neu Gymru-gyfan, lle byddai angen i Flaenau Gwent ddylanwadu ar y gwaith adferiad economaidd:

- Cyngor technolegol, buddsoddiad a sgiliau gweithgynyrchu
- Rhaglen sgiliau digidol ar draws pob sector
- Cefnogaeth cadwyn gyflenwi, safleoedd ac adeiladau (cyfleusterau ar-draeth)
- Cymorth penodol ar gyfer cwmnïau twf ac ymchwil a datblygu ym Mlaenau Gwent
- Cynlluniau a ddynodir ar gyfer hyfforddiant cysylltiedig â gwaith 18-24 ôl-addysg (e.e. FJF)
- Adeiladu'r Economi Sylfaen
- Ehangu hygyrchedd drwy ddatrysiadau trafnidiaeth arloesol/ cynaliadwy
- Galluogi mwy o fusnesau newydd yn arbennig yng nghanol trefi ac ar-lein
- Cynnydd gyda'r cyfleuster profi fel buddsoddiad angor i wynebu'r dyfodol ym Mlaenau Gwent

Cadarnhaodd y Swyddog fod y gwaith eisoes wedi dechrau ar nifer o gynlluniau a hefyd y cafodd nifer o brosiectau eu hailweithio i roi ystyriaeth i'r hyn fydd ei angen ar ôl COVID-19.

Rhoddodd y Rheolwr Arloesedd Busnes drosolwg manwl o weithgaredd ymgysylltu a'r gefnogaeth ariannol a roddwyd i fusnesau ers 17 Mawrth 2020.

Mewn ymateb i gwestiwn am gapasiti o fewn yr Adran, dywedodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu fod yr Adran yn gweithio i gapasiti i gyflenwi prosiectau a bod partneriaid y Cyngor hefyd wedi bod yn cynorthwyo.

Holodd Aelod arall os derbyniwyd unrhyw ddiddordeb yng

| | | |
|---|---|---|
| | nghyswllt Cwm Technoleg.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog y daeth ymholiadau i law a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau na chollwyd y diddordeb hwnnw.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am yr unedau yn Roseheyworth, cadarnhaodd y Rheolwr Arloesedd Busnes y cafodd pob un o'r 4 uned eu cwblhau gyda phrydlesau wedi eu llofnodi ar 3 o'r unedau ac y dangoswyd diddordeb yn yr uned arall.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu y cafodd yr unedau hyn eu blaenoriaethu fel rhan o'r adolygiad o unedau diwydiannol y Cyngor oherwydd eu gwerth marchnad uchel a'u potensial incwm.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Arloesedd Busnes mai dyma Ran 1 y cynllun a chadarnhaodd fod trafodaethau eisoes wedi dechrau ar Rhan 2, gweithio gyda masnachwyr lleol i roi cyfle i gefnogi twf yn yr economi sylfaen. Dywedodd fod unedau yn stadau diwydiannol y Fwrdeistref ar gyfer pob maes allweddol o waith.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd L. Elias â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Gofynnodd Aelod am y sefyllfa ddiweddaraf ar TVR. Atebodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, fodd bynnag deallai fod cyllid yn ei le a bod Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen i adnewyddu adeilad ar Stad Ddiwydiannol Rasa.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach am yr unedau yn Rhyd-y-blew, Glynebwy, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen â'r cynllun.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at gwestiwn cynharach gan Aelod am gapasiti o fewn yr Adran a chadarnhaodd y bu staff yn gweithio'n ddyfal drwy gydol y cyfnod clo a thu hwnt i ddarparu ystod cyfan o gymorth i fusnesau. Diolchodd i'r Tîm am eu gwaith rhagorol yn cael grantiau i gefnogi busnesau lleol a'u hymrwymiad i yrru'r Strategaeth hon ymlaen er mwyn creu swyddi ac adeiladu ar gyfer y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad ac i barhau | |

| | | |
|---|---|---|
| | i weithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar y cynlluniau â ddaw â’r budd mwyaf i Flaenau Gwent yn dilyn COVID, sef y rhai fydd yn gwella cyfleoedd cyflogaeth a chynorthwyo busnesau i symud ymlaen gyda gwelliannau digidol a chyfuniad o weithio gartref, gweithio rhithiol a gweithio mewn gofod rhannu (Opsiwn 1). | |